Paratoi at yr Arholiad Sylfaenol, cyfieithu i'r Gymraeg

Tiwtoriaid: Eirlys Williams a Lindsey Jones

22 a 23 Chwefror 2022 / 8 a 9 Mawrth 2022

Cyflwyniad

Ydych chi'n bwriadu sefyll yr Arholiad Aelodaeth Testun ar y lefel Sylfaenol i'r Gymraeg? Os felly, dyma weithdy ymarferol a fydd yn rhoi cyfle i chi ymarfer a mireinio eich sgiliau cyfieithu a golygu mewn amgylchedd cefnogol a chyfeillgar.

Rhennir y gweithdy'n ddwy sesiwn o awr a hanner yr un ar ddau fore olynol. Cynhelir y gweithdy'n rhithwir drwy Microsoft Teams. Bydd y sesiwn gyntaf yn rhoi pwyslais ar sgiliau cyfieithu a bydd yr ail sesiwn yn canolbwyntio ar sgiliau golygu. Yn y ddwy sesiwn gallwch hefyd elwa ar gynghorion cyffredinol a fydd yn werthfawr i chi yn yr arholiad Sylfaenol.

- Ni fyddwn yn cofrestru mwy na 8 ymhob gweithdy. Fe'ch anogwn, felly, i gofrestru a thalu cyn gynted â bo modd, a pheidio â'i gadael hi tan y funud olaf. Y cyntaf i'r felin fydd hi wrth neilltuo llefydd yn y gweithdy hwn.

Nod y gweithdy

Nod y gweithdy yw eich paratoi i sefyll yr arholiad Sylfaenol i'r Gymraeg, tynnu'ch sylw at wendidau a welir yn gyson yn yr arholiadau hyn, a sicrhau eich bod yn gyfarwydd â hanfodion cyfieithu da. Cewch gyngor ac arweiniad ynghylch creu cyfieithiad sy'n cyfleu ystyr y gwreiddiol yn gywir, ond nid yn slafaidd; sicrhau bod arddull y cyfieithiad yn addas ar gyfer y gynulleidfa darged; defnyddio iaith gywir a'r cywair priodol; a gwneud yn siŵr bod y mynegiant yn argyhoeddi yn yr iaith darged.

Gweithdy ymarferol fydd hwn yn bennaf, a byddwch yn gwneud tasgau penodol a chael adborth wrth fynd yn eich blaen. Bydd digon o gyfle i drafod, gofyn cwestiynau a chynnig sylwadau yn ystod y ddwy sesiwn.

Cynnwys y gweithdy

Sesiwn 1: Ymarfer sgiliau cyfieithu – Eirlys Williams

Yn y sesiwn hon tynnir sylw at gamgymeriadau penodol sy'n codi'n aml wrth gyfieithu. Cynigir dulliau o geisio osgoi cyflwyno cyfieithiadau gwallus ac ystyrir a yw hi'n bosibl dyfeisio strategaeth drefnus i osgoi gwneud y gwallau hyn. Trwy gyfres o

dasgau, byddwch yn adnabod gwallau o safbwynt y pedair elfen yn nhrefn marcio arholiadau Sylfaenol y Gymdeithas, sef Ystyr, Cywair, Cystrawen a Chywirdeb.

Sesiwn 2: Ymarfer sgiliau gwirio a golygu – Lindsey Jones

Mae gwirio a golygu'n sgil hollbwysig i unrhyw gyfieithydd. Bydd y sesiwn hon yn rhoi cyngor ar sut i fynd ati i graffu ar eich gwaith yn wrthrychol ac yn effeithiol er mwyn gwella'ch sgiliau gwirio a golygu; ac arweiniad ynghylch cynhyrchu cyfieithiad glân a graenus sy'n darllen fel darn gwreiddiol. Rhoddir y cyngor a'r arweiniad hwnnw ar waith wrth olygu darn anghyfarwydd ac yna cyfieithu a golygu darn byr eich hun.

Y deilliannau dysgu

- bydd gennych well syniad o ofynion a disgwyliadau sefyll arholiadau'r Gymdeithas ar y lefel Sylfaenol;

- byddwch yn deall yn well yr hyn sydd ei angen arnoch i gyrraedd y safon ofynnol i lwyddo;

- byddwch yn fwy ymwybodol o rai gwallau cyffredin a sut i'w hosgoi;

- byddwch wedi cael arweiniad ynghylch datblygu'ch sgiliau gwirio a golygu a bod yn fwy dadansoddol wrth graffu ar gyfieithiad;

- byddwch wedi cael cyngor ac arweiniad gan gyfieithwyr profiadol a fydd yn gymorth i chi wella a datblygu'ch hun fel cyfieithydd.

Y tiwtoriaid

Mae **Eirlys Williams** yn un o gyfieithwyr Cyngor Sir Powys. Mae hi'n aelod o Gofrestr Marcwyr Arholiadau'r Gymdeithas.

Mae **Lindsey Jones** yn gweithio i gwmni Trosol. Mae hi'n Ddirprwy Brif Arholwr i'r Gymraeg ar gyfer Arholiadau Aelodaeth Testun y Gymdeithas.

Cewch ragor o wybodaeth am y ddwy ar wefan y Gymdeithas - https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/dod-o-hyd-i-gyfieithydd/a-z-o-aelodaur-gymdeithas - yn eu Cofnod Aelodaeth.

Dyddiadau'r gweithdy

- **Dydd Mawrth a dydd Mercher, 22 a 23 Chwefror 2022, 10-11.30am**

Y dyddiad olaf i gofrestru fydd dydd Mercher, 16 Chwefror 2022, cyn 1.00pm.

- **Dydd Mawrth a dydd Mercher, 8 a 9 Mawrth 2022, 10-11.30am**

Y dyddiad olaf i gofrestru fydd dydd Mercher, 2 Mawrth 2022, cyn 1.00pm.

Cofrestru a thalu

Cofrestru

Rhaid i bob un lenwi'r ffurflen gofrestru. Gofynnwn am ffurflen gofrestru ar wahân ar gyfer pob dysgwr. Dylid e-bostio'r ffurflen gofrestru i gweithdy@cyfieithwyr.cymru ar ffurf 'Word' yn unig (ac nid ar ffurf 'pdf' nac unrhyw fformat arall).

Talu

Bydd y taliadau am y gweithdy yn:

- £45.00 i aelodau'r Gymdeithas, yn ogystal â'r Cwmnïau Cydnabyddedig, y Sefydliadau Cydnabyddedig a Chyswllt, a'r Myfyrwyr Cyswllt.

- £55.00 i bawb arall.

Nid ychwanegir TAW at y taliadau hyn.

Unigolion: rhaid i chi dalu wrth gofrestru. Ni fyddwn yn cofrestru neb ar gyfer y gweithdy oni chawn y tâl ar yr un pryd â'r ffurflen gofrestru.

Sefydliadau cyhoeddus: peidiwch â disgwyl cael rhif archeb swyddogol cyn anfon y ffurflen gofrestru atom. Gall yr archeb swyddogol ddilyn. Cofrestru sydd bwysicaf.

Cydnabod derbyn y ffurflen gofrestru

Bydd y Gymdeithas yn cydnabod derbyn pob ffurflen gofrestru, yn ogystal â'r taliad/rhif archeb, drwy e-bost o fewn tri diwrnod gwaith iddi ein cyrraedd ni.

Tynnu'n ôl neu ganslo

Os bydd dysgwr yn tynnu'n ôl, mae'n rhaid iddo yrru e-bost at gweithdy@cyfieithwyr.cymru i roi gwybod i ni.
Y telerau canslo fydd:
- 7 diwrnod neu ragor cyn dyddiad cau'r e-weithdy cyfieithu, ad-delir 75% o'r ffi.
- 3-6 diwrnod cyn dyddiad cau'r e-weithdy cyfieithu, ad-delir 50% o'r ffi.
- 1-2 diwrnod cyn dyddiad cau'r e-weithdy cyfieithu neu wedi hynny, dim ad-daliad.

Os mai Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru fydd yn canslo, cewch ad-daliad llawn neu gredyd.